

EISTEDDFOD MÔN 2013 BRO CEFNI

Fy mraint, fel Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Môn 2013 Bro Cefni, yw cael eich croesawu i'r Wyl a gynhelir yn Ysgol Gyfun Llangefni ar Fai 17eg a 18fed, 2013.

Mae deunaw mlynedd wedi mynd heibio ers i'r Eisteddfod ymweld â'r Fro hon. Gallaf eich sicrhau fod croeso cynnes yn eich disgwyl. Dalgylch yr Eisteddfod yw Tref Llangefni, ynghyd ag ardaloedd Rhosmeirch, Talwrn, Rhostrehwfa a Llangristiolus. Ardal sydd â hanes iddi gydag enwogion o fri wedi eu geni, a'u magu, yn y bröydd hyn yng nghanol y Fam Ynys. Mae rhagolygon da am Eisteddfod hapus a llwyddiannus.

Carwn ddiolch i'r Pwyllgor Gwaith, a'r holl Is-Bwyllgorau am eu gwaith caled yn trefnu'r cystadlaethau a'r gweithgareddau i godi arian. Diolch o galon i chwi i gyd. Hefyd, diolch am gefnogaeth Swyddogion Llys yr Eisteddfod ac mae fy niolch yn un arbennig iawn i'r Cyd Ysgrifenyddion Eryl H. Jones a Trefor Edwards am eu holl waith. Mae eu profiad yn y byd Eisteddfodol yn amhrisiadwy i ni fel Pwyllgor Gwaith, ac i mi fel Cadeirydd. Carwn ddiolch yn arbennig iawn i bawb sydd wedi noddi'r cystadlaethau, ac am bob rhodd a dderbyniwyd - hebdo chwi buasai yn anodd iawn cynnal yr Eisteddfod mewn adeg mor ansicr yn ariannol.

Mae ein dyled yn fawr i Faer y Dref, y Cynghorydd Margaret Thomas, ac i Gyngor Tref Llangefni am ei chymorth a'r haelioni. Ac ym murmur Afon Cefni pleser yw i mi cael eich croesawu â breichiau agored, yn gystadleuwyr a gwrandawyr, i'r Wyl annwyl hon yn 2013.

Gladys Hughes
Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith



Cynlluniwyd y logo gan
Cara Mair Jones a Jasmine Crimp
disgyblion Blwyddyn 4 Ysgol y Graig, Llangefni

CYWYDD CROESO I EISTEDDFOD MÔN 2013 BRO CEFNI

Dewch mewn trefn i Langefni
Anwylwch ei harddwch hi,
Hon yw'r fro a'r haul ar fryn
Yno'n ddelwedd ddi-elyn,
Hen fro deilwng frawdolion
Hynod hael ydyw hon,
Yn y dref cewch edrych draw,
Ar heulwen ym mro Alaw.
Dewch am wledd yr eisteddfod
Er ein budd yr orau'n bod,
O dirwedd yr awduron
Y daw hwyl y steddfod hon,
Cariad Duw yn cario'r dydd
Yn annwyl inni beunydd,
Oriau twym a geiriau teg
Yn wastad yn ei gosteg,
Ar y Sul mae cwmni'r Saint,
Yn y cymun werth cymaint.
A felly, dewch gyfeillion,
Croeso mawr fydd croeso Môn.
Dewch mewn trefn i Langefni,
Edmygwch ei harddwch hi.

Ffordd deg o feithrin egin - i gyrraedd
man gorau llên gwerin
yn ein bro a throi dawn brin
i ffrydio'n anghyffredin.

Robin Hughes.

EISTEDDFOD MÔN 2013 BRO CEFNI

LLYWYDDION ANRHYDEDDUS

Mrs Morfydd Edwards

Mrs M. A. Edwards M.B.E.
Mrs Mair Griffith
Miss Dilys Hughes
Mrs J. Rolant Jones
Mrs Eleanor Jones
Mrs Elizabeth Williams
Dr. Dafydd Alun Jones
Mr William Evans
Mr Thomas Williams

SWYDDOGION Y PWYLLGOR GWAITH

Cadeirydd :
Mrs Gladys Hughes

Is-Gadeirydd :
Cyng. Margaret Thomas

Ysgrifenyddion :
Eryl H. Jones, 36 Cae'r Delyn, Bodffordd, Ynys Môn LL77 7EJ
☎ 01248 723243 e-✉ eryljones007@btinternet.com
Trefor Edwards, Pentre Hwfa, Rhostrehwfa, Llangefni LL77 7YP
☎ 01248 750004 e-✉ trefor.edwards@btinternet.com

Trysorydd :
Robin Jones, 8 Gorwel Deg, Rhostrehwfa, Llangefni LL77 7JR
☎ 01248 724357 e-✉ r.jones438@btinternet.com

Cyhoeddusrwydd :
Nesta Pritchard, Gwel Eryri, Llangwyllog, Llangefni LL77 7PX
☎ 01248 723707 e-✉ nesta.pritchard@tiscali.co.uk

SWYDDOGION YR IS-BWYLLGODAU

Drama :

Cadeirydd : Tony Jones
Ysgrifennydd : Olwen Hughes, Kestor, Stryd y Cae, Llangefni, Ynys Môn LL77 7EH
☎ 01248 724833 e-✉ olwenhughes@yahoo.co.uk

Llên :

Cadeirydd : Dylan Morgan
Ysgrifennydd : J. Richard Williams, Gwernyfed, Llangefni, Ynys Môn LL77 7NU
☎ 01248 723819

Llefaru :

Cadeirydd : Catherine Jones
Ysgrifennydd : Nerys Pritchard, 17 Rhos Llwyn, Llangefni, Ynys Môn LL77 7QA
☎ 01248 723251 e-✉ neryspritchard@yahoo.co.uk

Cyfansoddi / Lleisol / Offerynnol / Dawns :

Cadeirydd : Huw Goronwy Owen
Is-Gadeirydd : Sioned Jones
Ysgrifennyddion : Rhys Pritchard, 42 Stryd Fawr, Llannerch-y-medd, Ynys Môn LL71 8EA
☎ 01248 470579 e-✉ teulupritchard42@btinternet.com
Nia Efans, Taleilian, Talwrn, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TF
☎ 01248 723038 e-✉ niaefans@hotmail.com

Celf a Chrefft :

Cadeirydd : Rhian Evans
Ysgrifennydd : Ffion Hughes, Swn y Nant, Rhosmeirch, Llangefni, Ynys Môn LL77 7NQ
☎ 01248 750684

Cyllid :

Cadeirydd : Malcolm Lee
Is-Gadeirydd : Janice Davies
Ysgrifennydd : Jean Lee, 9 Bryn Meurig, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7JB
☎ 01248 723229 e-✉ lee@brynmeurig.fsnet.co.uk

Pwyllgor Croeso :

Cadeirydd : Audrey Jones *Ysgrifennydd* : Anwen Weightman

Prif Stiward :

Dic Pritchard, Gwêl Eryri, Llangwyllog, Llangefni, Ynys Môn LL77 7PX

Cynrychiolwyr Llys Eisteddfod Môn :

Gwyneth Morus Jones	-	Llywydd y Llys
Evan ac Elizabeth Jones	-	Cydlynwyr Eisteddfod Môn
Gladys Pritchard	-	Trysorydd y Llys
Victor Hughes	-	Swyddog Technegol
Hefina Williams	-	Ysgrifennydd y Llys

SWYDDOGION LLYS EISTEDDFOD MÔN 2012

CYMRAWD Y LLYS

Dewi Jones, Stangau, Benllech

LLYWYDDION ANRHYDEDDUS

Eryl H. Jones, Erfan, 36 Cae'r Delyn, Bodffordd
Ellis Wyn Roberts, Bryn Parc, Bodffordd
J. Tegwyn Thomas, Bronllwyn, Llannerch-y-medd
Emyr Wyn Williams, 35 Maes yr Hafod, Porthaethwy
Victor Hughes, Llys Helyg, Bodffordd

LLYWYDD

Gwyneth Morus Jones, 30 Gwêl Eryri, Llandegfan

IS-LYWYDD

Alwen Jones, Llifon, Amlwch

TRYSORYDD

Gladys Pritchard, Crud yr Awel, 6 Llainfain, Caergybi

TRYSORYDD CYNORTHWYOL

Pat Ann Roberts, Penrallt, Penrhyd, Amlwch

YSGRIFENNYDD A SWYDDOG CYHOEDDUSRWYDD

Hefina Williams, Awel y Mynydd, Penysarn, Amlwch, Ynys Môn LL69 9YB
☎ 01407 832045

CYDLYNWYR EISTEDDFOD MÔN AC IS-YSGRIFENYDDION

Evan ac Elizabeth M. Jones, Garddelan, Ffordd Amlwch, Llannerch-y-medd
☎ 01248 470302 e-bost llys.eisteddfod_mon@yahoo.co.uk

SWYDDOG AELODAETH

O. Arthur Williams, 12 Lôn y Wylan, Llanfairpwll
☎ 01248 714406

PWYLLGOR CYLLID

Cadeirydd : Ellis Wyn Roberts, Bryn Parc, Bodffordd
Ysgrifennydd : Elizabeth M. Jones, Garddelan, Llannerch-y-medd

SWYDDOGION TECHNEGOL

Victor Hughes, Llys Helyg, Bodffordd
Evan D. Jones, Garddelan, Llannerch-y-medd
Trefor Edwards, Pentre Hwfa, Rhostrehwfa, Llangefni
Glyn Owen, Coedlys, Tyn, Lôn, Caergybi

ARCHWILWYR

D. Ll. Jones, B.Sc., F.C.A.
Cwmni I. G. Jones, Cyfrifwyr Siartredig, Llangefni

GORSEDD BEIRDD MÔN

GORAU ARF  ARF DYSG

Swyddogion yr Orsedd 2012

Llywydd Anrhydeddus	:	Machraeth
Derwydd Gweinyddol	:	Sian Penllyn
Derwydd Gweinyddol 2008-2011	:	Eurfon
Derwydd Gweinyddol 2003-2008	:	Huw Goronwy
Bardd yr Orsedd	:	Annes Bryn
Caplan	:	Rhisiart Edeyrn
Cofiadur	:	Evan
Trysorydd	:	Elizabeth Graigwen
Rhingyll	:	Glyn Bodwrog
Ceidwad y Cledd	:	Ioan Dyfnan
Meistres y Gwisgoedd	:	Gladys Bodwradd
Ceidwad y Porth	:	Trefor Tan-y-manod
	:	Roy ab Huw
Cyflwynfeirdd	:	Catrin o Lŷn
	:	Megan Arfon
Cyfarwyddwr Cerdd ac		
Arholwr Cerdd	:	Rhiain Y Ddyfi
Arholwr Llên a Barddoniaeth	:	Machraeth
Trefnydd y Ddawns Flodau a'r		
Aberthged	:	Mair Jones, Sioned Jones

Gorsedd Beirdd Môn

*Allor gwerin ddiplino – i roddi
I'n 'raddau i gofio
Rhai'n eu braint sy'n arwain bro
Tra 'nydd ei hestroneiddio*

Machraeth

AELODAETH GORSEDD BEIRDD MÔN

Gall aelodau'r Orsedd enwebu unigolion i'w derbyn er Anrhydedd drwy anfon llythyr i sylw'r Cofiadur. Gofynnir i'r enwebiadau fod i law erbyn Hydref 1^{af}, 2012

Gellir gwneud cais am aelodaeth i'r Orsedd trwy arholiad, yn y meysydd canlynol :- Cerddoriaeth; Llenyddiaeth; Barddoniaeth.

Mwy o fanylion ar gael drwy gysylltu â Cofiadur yr Orsedd, Evan, Garddelan, Ffordd Amlwch, Llannerch-y-medd, Ynys Môn LL71 8DF.

AMODAU CYFFREDINOL

1. **CYMRAEG FYDD IAITH Y LLWYFAN.**
2. Bydd gan y beirniaid hawl i atal neu ad-drefnu'r wobr.
3. Ni chaniateir gwrthdystio ar goedd yn erbyn unrhyw ddyfarniad. Rhaid anfon gwrthdystiad ysgrifenedig i'r Ysgrifenyddion Cyffredinol o fewn awr ar ôl cyhoeddi'r dyfarniad. Gelwir ar Banel Dyfarnu i ddelio â'r gwrthdystiad.
4. Ym mhob cystadleuaeth sy'n gyfyngedig i oedran penodol cyfrifir yr oedran ar 31ain Awst 2013
5. Disgwylir i gystadleuwyr ymddangos a chystadlu yn ôl y drefn a roddir iddynt, ac i fod yn barod yng nghefn y llwyfan 10 munud cyn dechrau'r gystadleuaeth.
6. Yn dilyn rhagbrofion, gofynnir i'r beirniaid roddi tri ar y llwyfan os bydd teilyngdod.
7. Ni chaniateir cyflwyno'r un darn mewn mwy nag un gystadleuaeth yn yr un adran.
8. Dyfarniad yn unig a roddir o'r llwyfan er arbed amser. Bydd beirniadaeth ysgrifenedig ar gael yn dilyn y canlyniadau. Am yr amodau llenyddol, gweler yr 'Adran Llenyddiaeth'.
9. Rhoddir hawl i aelodau'r Pwyllgor Gwaith a'r Is-Bwyllgorau gystadlu mewn unrhyw gystadleuaeth.
10. Bydd angen i gystadleuwyr sicrhau eu bod yn anfon eu ffurflenni cystadlu i fewn erbyn y dyddiad cau a nodir. **Ni ellir sicrhau y bydd ceisiadau hwyr yn cael eu derbyn i gystadlu.**

GWELER HEFYD AMODAU TESTUNAU ADRANNAU

EISTEDDFOD MÔN 2013
BRO CEFNI

GŴYL DDRAMA
Ebrill 17^{eg} – 20^{fed} 2013
yn
Theatr Fach, Llangefni

Enwau a Ffurflenni Cystadleuwyr i :-

Olwen Hughes
Kestor
Stryd y Cae
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7EH

 01248 724833

erbyn :

Cyfansoddi : Ionawr 31^{ain} 2013
Perfformio : Mawrth 31^{ain} 2013

Ni ellir sicrhau y bydd ceisiadau hwyr yn cael eu derbyn i gystadlu.

Telir hyd at £30 tuag at dreuliau pob cwmni sy'n aflwyddiannus yn yr adran berfformio.

Disgwylir i'r cwmnïau ddefnyddio'r llwyfan fel ag y mae. Anfonir cynllun a mesuriadau'r llwyfan i bob cwmni ymlaen llaw.

YR WYL DDRAMA

ADRAN CYSTADLAETHAU CYFANSODDI

BEIRNIAD : Manon Lewis Owen

1. Cystadleuaeth Agored i Oedolion :
Drama Un Act (a gymer rhwng 40 – 60 munud i'w pherfformio)

Gwobrau Y Fedal Ddrama a £100

Y Fedal yn rhoddedig gan Tony ac Audrey Jones, Rhostrehwfa, “er cof am John Huws, Stamp, Llannerch-y-medd”

Rhennir y wobwr ariannol fel a ganlyn :-

£75 : Rhodd gan Olwen, Gerallt ac Awen Hughes, Llangefni.

£25 : Rhodd gan Dafydd Thomas, Rhosmeirch.

2. Cystadleuaeth Ieuenctid (dan 25 oed) :
Cyfansoddi 'Monolog' (15 – 20 munud o hyd) -

***Testun* : 'Monolog o safbwynt rhywun mewn cyfyng gyngor'**

Gwobrau 1^{af} £75, 2^{il} £50, 3^{ydd} £25.

Rhennir yr 2^{il} wobwr fel a ganlyn :-

£20 : Rhodd gan Richard a Morwenna Williams, Llangefni.

£20 : Rhodd gan Penseiri Russell Hughes, Llangefni.

£5 : Rhodd gan Noella Williams, Rhostrehwfa, “er cof am Dave Williams, Boots”.

£5 : Rhodd gan Siân a David Bevan, Llangefni.

Y 3^{edd} wobwr : Rhodd gan Siân a David Bevan, Llangefni, er cof am Mr Gwyn Williams, a Meinir Llywelyn, Berwyn, gynt Porthaethwy.

ADRAN CYSTADLAETHAU PERFFORMIO

BEIRNIAD : Emyr John

1. Cystadleuaeth Agored i Oedolion :
Perfformio drama un act a gymer rhwng 40 a 60 munud i'w pherfformio.

Gwobrau 1^{af} £150, 2^{il} £100, 3^{ydd} £75.

Y wobwr 1^{af} : Rhodd gan Gwmni Rondo.

Yr 2^{il} wobwr : Rhodd gan Paramaeth.

Y 3^{edd} wobwr : Rhodd gan Deulu'r Ddôl, Llaniestyn, er cof am chwaer a modryb sef Jane Pritchard, Pentre Berw.

2. Agored Ieuenctid (dan 25 oed) :
Perfformio drama un act a gymer rhwng 40 a 60 munud i'w pherfformio.

Gwobrau 1^{af} £75, 2^{il} £50, 3^{ydd} £25.

Y wobwr 1^{af} : Rhodd “er cof am Gwilym Owen – Cigydd ac Actor”

Rhennir yr 2^{il} wobwr fel a ganlyn :-

£25 : Rhodd gan Sefydliad y Merched Môn.

£25 : Rhodd gan Mrs Sheila Phillips, Ty'n Llwyn.

Y 3^{edd} wobwr : Rhodd “er cof am Gwilym Owen – Cigydd ac Actor”

Cyflwynir Tlws Coffa Charles Williams i'r actor neu'r actores orau'r Wyl.

EISTEDDFOD MÔN 2013
BRO CEFNI

ADRAN LLENYDDIAETH

Enwau a Ffurflenni Cystadleuwyr i :-

J. Richard Williams
Gwernyfed
23 Dôl Werdd
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7NU

 01248 723819

erbyn : MAWRTH 1^{af} 2013

Ni ellir sicrhau y bydd ceisiadau hwyr yn cael eu derbyn i gystadlu.

AMODAU LLENYDDIAETH

(*Gweler hefyd yr Amodau Cyffredinol*)

1. Rhaid i bob cyfansoddiad neu gynnyrch a anfonir i gystadleuaeth fod yn waith gwreiddiol a dilys y cystadleuydd a heb ei wobrwyo mewn unrhyw Eisteddfod o'r blaen. Bydd rhaid i'r cystadleuwyr brofi dilysrwydd eu gwaith os bydd angen.
2. Y Cyfansoddiadau i fod yn Gymraeg ac i'w cyflwyno yn eglur ar un wyneb i'r dudalen yn unig.
3. Ni dderbynnir unrhyw waith ar ddisg gyfrifiadurol, e-bost neu ddull electronig arall.
4. Rhaid anfon **DAU GOPI YSGRIFENEDIG** ar gyfer Cystadleuaeth y Gadair a'r Goron.
5. i. Rhaid i bob cyfansoddiad ddwyn rhif a theitl y gystadleuaeth a'r ffugenw yn unig.
 - ii. Gyda phob cyfansoddiad, rhaid anfon amlen dan sêl gyda'r manylion canlynol :-
 - Oddi mewn*** : rhif a theitl y gystadleuaeth, ffugenw, enw llawn a chyfeiriad y cystadleuydd a rhif ffôn (ac eithrio 5iii isod).
 - Oddi allan*** : rhif a theitl y gystadleuaeth, ffugenw y cystadleuydd.
 - iii. Derbynnir rhestr enwau a ffugenwau gan ysgolion yn hytrach nag amlen ar gyfer pob cystadleuydd.
 - iv. Rhaid i bob cyfansoddiad fod yn llaw Ysgrifennydd yr Adran Llên :
J. Richard Williams, Gwernyfed, 23 Dôl Werdd,
Llangefni, Ynys Môn LL77 7NU
erbyn Mawrth 1^{af}, 2013
6. Cymerir pob gofal am y cyfansoddiadau a'r cynhyrchion a anfonir i gystadleuaeth. Ni fydd y Pwyllgor Gwaith yn gyfrifol am unrhyw anffawd a ddigwydd iddynt.
7. Dychwelir y cyfansoddiadau a'r feirniadaeth berthnasol os derbynnir cais ysgrifenedig, gydag amlen â stamp dilys arni, o fewn mis ar ôl yr Eisteddfod.

ADRAN OEDOLION

BARDDONIAETH GAETH

BEIRNIAD : Gwenant Llwyd Ifan

1. **CYSTADLEUAETH Y GADAIR :**

Cerdd neu gasgliad o gerddi yn y Mesurau Caeth heb fod dros 150 o linellau ar y testun "**PERERIN**"

Gwobr Cadair yr Eisteddfod a £150

Y Gadair :

Rhoddedig gan Ann a Eric Wyn Owen, Rhoscolyn,
er cof am Caerwyn.

Y wobwr ariannol :

Rhoddedig gan Dic a Nesta Pritchard, Llangwyllog.

2. **ENGLYN UNODL UNION : "Yr Ysgol Fechan"**

Gwobr £25

Rhoddd gan Emyr Williams, Porthaethwy er cof am ei ddiweddar annwyl
wraig, Delian Haf Williams.

3. **ENGLYN YSGAFN : "Y Cyngor"**

Gwobr £25

Rhoddd gan Emyr Williams, Porthaethwy er cof am ei ddiweddar annwyl
wraig, Delian Haf Williams.

4. **CYWYDD – heb fod dros 20 llinell : "Mam"**

Gwobr £25

Rhoddd : Cronfa Goffa Edward a Bet Jones, Llain Delyn.

5. **AMRYWIAETH O 6 DIHAREB GYNGANEDDOL**

Gwobr £25

Rhoddd : Robin a Catherine Hughes, Llangefni.

BARDDONIAETH YN Y MESURAU RHYDD

BEIRNIAD : Glenys Mair Glyn Roberts

6. **CYSTADLEUAETH Y GORON :**

Cerdd neu gasgliad o gerddi yn y Mesurau Rhydd heb fod dros 150 o linellau ar y testun "**LLWYBRAU**"

Gwobr Coron yr Eisteddfod a £150

Y Goron a'r wobwr ariannol yn rhoddedig gan Gyngor Tref Llangefni.

- 7. EMYN ar gyfer achlysur arbennig**
Gwobr £25
Rhodd : William a Nia Lewis, Llangefni.
- 8. TELYNEG : "Y Farchnad"**
Gwobr £25
Rhodd : Olwen Lewis, Llangefni.
- 9. BALED wedi ei selio ar DDIGWYDDIAD HANESYDDOL
DIWEDDAR.**
Gwobr £25
Rhodd : Teulu'r Wern, Talwrn.
- 10. ADRODDIAD DONIOL addas i blant hyd at 12 oed**
Gwobr £25
Rhodd : Teulu'r Wern, Talwrn.

RHYDDIAITH

BEIRNIAD : Manon Wyn Williams

- 11. CYSTADLEUAETH Y FEDAL RYDDIAITH**
Casgliad o Ryddiaith greadigol un ffurf neu ar amrywiaeth o ffurfiau.
Gwobr Y Fedal Ryddiaith a £150
Y Fedal :
Rhoddedig gan Glwb Rotari Llangefni.
Y Wobr ariannol :
Rhoddedig gan Irene a Branwen Williams ac Anwen Weightman, Cerrig-Ceinwen, er cof am John Llewelyn Williams.
- 12. ERTHYGL ar gyfer Papur Bro (Gofynnir i'r awdur nodi enw'r
Papur Bro)**
Gwobr £25
Rhodd : Dylan Morgan, Llangefni.
- 13. STORI FER : Agored**
Gwobr £25
Rhodd : Dylan Morgan, Llangefni.
- 14. MYFYRDOD ar gyfer y rhaglen radio Munud i Feddwl**
Gwobr £25
Rhodd : Robin a Catherine Hughes, Llangefni.
- 15. LLYTHYR OLAF o eiddo unrhyw gymeriad hanesyddol**
Gwobr £25
Rhodd : J.R. a Mavis Williams, Llangefni.

ADRAN IEUNECTID

Oherwydd diffyg cefnogaeth i'r adran hon yn y gorffennol a phwysau gwaith cyffredinol sydd ar athrawon, mae y testunau yn **AGORED**.

Gofynnir am waith dosbarth wedi ei greu yn yr ysgol ers Medi 2012 yn hytrach na unrhyw waith cartref.

YSGOLION CYNRADD

BEIRNIAD : Eleri W. Owen

BARDDONIAETH - MAMIAITH

- | | | |
|---------------------------|--------------|---------------|
| 16. Blwyddyn 3 a 4 | <i>Gwobr</i> | £10 i'w rannu |
| 17. Blwyddyn 5 a 6 | <i>Gwobr</i> | £10 i'w rannu |

RHYDDIAITH - MAMIAITH

- | | | |
|---------------------------|--------------|---------------|
| 18. Blwyddyn 1 a 2 | <i>Gwobr</i> | £10 i'w rannu |
| 19. Blwyddyn 3 a 4 | <i>Gwobr</i> | £10 i'w rannu |
| 20. Blwyddyn 5 a 6 | <i>Gwobr</i> | £10 i'w rannu |

BARDDONIAETH - AIL IAITH

- | | | |
|---------------------------------|--------------|---------------|
| 21. Blwyddyn 3, 4, 5 a 6 | <i>Gwobr</i> | £10 i'w rannu |
|---------------------------------|--------------|---------------|

RHYDDIAITH - AIL IAITH

- | | | |
|---------------------------|--------------|---------------|
| 22. Blwyddyn 1 a 2 | <i>Gwobr</i> | £10 i'w rannu |
| 23. Blwyddyn 3 a 4 | <i>Gwobr</i> | £10 i'w rannu |
| 24. Blwyddyn 5 a 6 | <i>Gwobr</i> | £10 i'w rannu |

Gwobrau yn yr adran hon yn rhoddedig gan Dewi ap Rhobert a'r diweddar Vera, Talwrn.

YSGOLION UWCHRADD

BEIRNIAD : Eleri Wyn Owen

BARDDONIAETH - MAMIAITH

- | | | |
|------------------------------|--------------|---------------|
| 25. Blwyddyn 7 | <i>Gwobr</i> | £20 i'w rannu |
| 26. Blwyddyn 8 a 9 | <i>Gwobr</i> | £20 i'w rannu |
| 27. Blwyddyn 10 ac 11 | <i>Gwobr</i> | £20 i'w rannu |
| 28. Blwyddyn 12 a 13 | <i>Gwobr</i> | £20 i'w rannu |

RHYDDIAITH - MAMIAITH

- 29. Blwyddyn 7** *Gwobr* £20 i'w rannu
30. Blwyddyn 8 a 9 *Gwobr* £20 i'w rannu
31. Blwyddyn 10 a 11 *Gwobr* £20 i'w rannu
32. Blwyddyn 12 a 13 *Gwobr* £20 i'w rannu

BARDDONIAETH - AIL IAITH

- 33. Oedran Uwchradd** *Gwobr* £20 i'w rannu

RHYDDIAITH - AIL IAITH

- 34. Blwyddyn 7** *Gwobr* £20 i'w rannu
35. Blwyddyn 8 a 9 *Gwobr* £20 i'w rannu
36. Blwyddyn 10 a 11 *Gwobr* £20 i'w rannu
37. Blwyddyn 12 a 13 *Gwobr* £20 i'w rannu

Gwobrau yn yn adran hon yn rhoddedig gan Gladys Pritchard, Caergybi, er cof am y diweddar Ken Pritchard; Manon a Gethin Morris Williams, Llangefni; Gari Wyn, Bethel; J.R. a Mavis Williams, Llangefni; Cyngor Tref Llangefni.

38. TLWS YR IFANC :

BEIRNIAD : Eleri Wyn Owen

Y Tlws yn rhodd gan Evan ac Elizabeth Jones, Llannerch-y-medd
Gwobr ariannol o £100 yn rhoddedig gan Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch.

EISTEDDFOD MÔN 2013 BRO CEFNI

ADRANNAU :
CYFANSODDI, LLEISIOL, OFFERYNNOL

Enwau a Ffurflenni Cystadleuwyr i :-

Rhys Glyn Pritchard
42 Stryd Fawr
Llannerch-y-medd
Ynys Môn
LL71 8EA
 01248 470579

CYFANSODDI - erbyn : MAWRTH 1^{af} 2013

LLEISIOL - erbyn : MAI 5^{ed} 2013

OFFERYNNOL - erbyn : MAI 5^{ed} 2013

Ni ellir sicrhau y bydd ceisiadau hwyr yn cael eu derbyn i gystadlu.

AMODAU CERDDORIAETH

NODER - Mae llungopïo unrhyw ddarn o gerddoriaeth sydd wedi ei gyhoeddi yn anghyfreithlon.

1. CYMRAEG FYDD IAITH Y LLWYFAN

2. Rhaid i gystadleuwyr dderbyn gwasanaeth cyfeilyddion swyddogol yr Eisteddfod ac eithrio yng nghystadleuaeth rhif 2 & 3 Nos Wener, Mai 17^{eg} 2013.
3. Ymhob cystadleuaeth, yr argraffiad a nodir yn unig a ganiateir, oni nodir yn wahanol.
4. Penderfynir y drefn i'r Corau ganu ar y llwyfan ar ddiwrnod y gystadleuaeth.
5. **Perfformio** : Disgwylir derbyn enwau cystadleuwyr erbyn **MAI 5^{ed}, 2013**
6. **Cerdd Lleisiol** : Ymhob cystadleuaeth lle bo hunan ddewisiad, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd :
 - a) sicrhau copi i'r beirnad/beirniaid.
 - b) nodi enw/au y darn/au ar y ffurflen cystadlu.
7. **Cerdd Dant** : Pan fydd geiriau yn ddetholiad neu hunan ddewisiad, rhaid i'r ymgeisydd amgáu copi ohonynt gyda'r ffurflen gystadlu, gan nodi'r gainc.
8. **Cyfansoddi** : Rhaid i'r holl gyfansoddiadau gyrraedd yr Ysgrifennydd Cerdd erbyn **MAWRTH 1^{af}, 2013** :
 - a) Rhaid i bob cyfansoddiad ddwyn rhif a theitl y gystadleuaeth ynghyd â ffugenw yn unig wedi ei nodi arno.
 - b) Gyda phob cyfansoddiad, rhaid anfon amlen dan sêl gyda'r manylion canlynol :-

Oddi mewn: rhif a theitl y gystadleuaeth, ffugenw, enw a chyfeiriad llawn y cystadleuydd a rhif ffôn.

Oddi allan: rhif a theitl y gystadleuaeth, ffugenw y cystadleuydd.

Rhaid cofrestru cyfansoddiadau i'w hanfon yn y post.

AMODAU'R CYSTADLAETHAU OFFERYNNOL

1. Mae rhyddid i unawdwyr ddefnyddio eu cyfeilyddion eu hunain.
2. Os bydd angen gwasanaeth cyfeilydd swyddogol yr Eisteddfod rhaid nodi hynny wrth anfon enw i'r gystadleuaeth. Dylid amgáu copi o'r gerddoriaeth y bwriedir ei pherfformio.
3. Bydd hawl gan gyfeilydd swyddogol yr Eisteddfod i wrthod cyfeilio i unrhyw unawdydd os gofynnir am y gwasanaeth hwnnw ar ddiwrnod yr Eisteddfod, a heb roi rhybudd a chopi o'r gerddoriaeth ymlaen llaw.
4. Ni chaniateir newid cyweirnod – rhaid perfformio'r gerddoriaeth yn y cyweirnod gwreiddiol.
5. Bydd hawl gan y beirniad i dynnu marciau oddi ar gystadleuydd aiff dros yr amser penodedig.
6. Bydd hawl gan y beirniad i ddefnyddio cyfran o'r wobwr yn unig os na fydd mwy nag un cystadleuydd yn yr adran.

PWYSIG : Cofiwch nodi os ydych angen gwasanaeth cyfeilydd swyddogol yr Eisteddfod.

ADRANNAU LLEISIOI, CYFANSODDI, OFFERYNNOL

BEIRNIAID :

Cerddoriaeth

Trystan Lewis

Delyth Hopkins Evans

Eilyr M. Thomas

Offerynnol

Gareth Hughes Jones

Glian Llwyd

Cerdd Dant/Gwerin

Arfon Williams

Sioe Gerdd

Emyr Wyn Gibson

Dawnsio Gwerin/Stepio

Meinir Siencyn

Dawnsio Disgo

Olwen Green

CYFEILYDDION :

Grês Pritchard, Olwen Jones,
Aled Edwards, Elen Wyn Keen

TELYNOR :

Dylan Cernyw

CYSTADLAETHAU NOS WENER, MAI 17^{eg} 2013

LLEISIOI :

- 1. Unawd 19 – 25 oed - Unrhyw unawd safonol ac eithrio emyn, unawd allan o Sioe Gerdd neu gân ysgafn : Hunan ddewisiad**

Gwobrau 1^{af} £40, 2^{il} £30, 3^{ydd} £20.

Y wobr 1^{af} : Rhodd gan Alwyn ag Eleri Williams, Rhosmeirch, er cof am Wil a Jennie Hughes.

Yr 2^{il} wobr : Rhodd gan Olwen, Bethan a Dafydd, er cof am Emlyn Hughes.

Y 3^{edd} wobr : Rhodd gan Dion ag Einir Williams, Llangefni, er cof am Taid a Nain ac Yncl Emlyn

- 2. Unawd allan o unrhyw Sioe Gerdd neu Ffilm dan 19 oed : Hunan ddewisiad**

Rhaid i bob cystadleuydd ddarparu ei gyfeiliant ei hun, gall hynny gynnwys tâp neu allweddell wedi ei raglennu, ond ni ddylid cynnwys unrhyw leisiau cefndir o gwbl.

Gwobrau 1^{af} £40, 2^{il} £25, 3^{ydd} £20.

Y wobr 1^{af} a'r 3^{edd} : Rhodd gan deulu Taleilian, Talwrn.

Yr 2^{il} wobr : Rhodd gan Glanbia, Llangefni.

3. Unawd allan o unrhyw Sioe Gerdd neu Ffilm dros 19 oed : Hunan ddewisiad

Rhaid i bob cystadleuydd ddarparu ei gyfeiliant ei hun, gall hynny gynnwys tâp neu allweddell wedi ei raglennu, ond ni ddylid cynnwys unrhyw leisiau cefndir o gwbl.

Gwobrau 1^{af} £40, 2^{il} £25, 3^{ydd} £20.

Y wobr 1^{af} : Rhodd gan Gwilym a Beti Williams, Llangefni.

Yr 2^{il} wobr : Rhodd gan Glanbia, Llangefni.

Y 3^{edd} wobr : Rhodd gan Glyn a Morfydd Owen, Tyn Lon.

4. Canu Emyn dan 50 oed : Hunan ddewisiad

Gwobrau 1^{af} £40, 2^{il} £30, 3^{ydd} £20.

Y gwobrau yn rhodd gan Maldwyn Owen, Gwalchmai er cof am ei fam Mrs Jennie Owen, Gwalchmai.

5. Ensemble Lleisiol – Agored (rhwng 3 ac 8 mewn nifer) - Un darn digyfeiliant, trillais neu fwy : Hunan ddewisiad

Gwobrau 1^{af} £50, 2^{il} £30, 3^{ydd} £20.

Y gwobrau yn rhodd gan Eryl a Myfanwy Jones, Bodffordd.

6. Côr Capel, Eglwys, Mudiad neu Bensiynwyr - Dau ddarn cyferbyniol : Hunan ddewisiad

Gwobrau 1^{af} £150, 2^{il} £100, 3^{ydd} £75.

Y wobr 1^{af} : Rhodd gan Gwilym Lewis er cof am ei chwaer Olwen Lewis, Caergybi.

Yr 2^{il} wobr : Rhodd gan Gôr Meibion y Traeth.

Rhennir y 3^{edd} wobr fel a ganlyn :-

£50 : Rhodd gan Gôr Bro Ddyfnan.

£25 : Rhodd gan Pat Ann ac Owain Roberts, Amlwch.

Gofynnir i'r corau archebu eu tocynnau ac anfon tâl priodol o £3 y pen gyda'u ffurflen gofrestru i gystadlu.

CYSTADLAETHAU DYDD SADWRN, MAI 18^{fed} 2013

LLEISIOL :

7. Unawd Blwyddyn 2 ac iau : Hunan ddewisiad

Gwobr £25 i'w rannu

Y wobr yn rhodd gan David a Valeri Ellis Jones, Llanfairpwll.

8. Unawd Blwyddyn 3 a 4 : Hunan ddewisiad

Gwobrau 1^{af} £15, 2^{il} £10, 3^{ydd} £5.

Y gwobrau yn rhodd gan Mair Griffiths, Llangristiolus.

9. Unawd Blwyddyn 5 & 6 : Hunan ddewisiad

Gwobrau 1^{af} £15, 2^{il} £10, 3^{ydd} £5.

Y gwobrau yn rhodd gan Mair Griffiths, Llangristiolus.

10. Unawd Blwyddyn 7, 8 & 9 : Hunan ddewisiad

Gwobrau 1^{af} £20, 2^{il} £12, 3^{ydd} £8.

Y gwobrau yn rhodd gan Mair Griffiths, Llangristiolus.

11. Parti Unsain Oedran Ysgolion Cynradd (Dim mwy na 12 mewn nifer) : Hunan ddewisiad

Gwobrau 1^{af} £50, 2^{il} £30, 3^{ydd} £20.

Y gwobrau yn rhodd gan Delyth a Trefor Edwards, Rhostrehwfa.

CANU GWERIN :

12. Unawd Alaw Werin Blwyddyn 6 ac iau : Hunan ddewisiad

Gwobrau 1^{af} £12, 2^{il} £10, 3^{ydd} £5.

Y gwobrau yn rhodd gan Bryn, Ann, Cai a Non, Talwrn.

13. Unawd Alaw Werin Bl. 7 ac o dan 19 oed : Hunan ddewisiad

Gwobrau 1^{af} £16, 2^{il} £13, 3^{ydd} £11.

Y gwobrau yn rhodd gan Dr Teleri Mair Williams, Llynfaes.

CERDD DANT :

14. Unawd Blwyddyn 6 ac iau : Hunan ddewisiad

Gwobrau 1^{af} £12, 2^{il} £10, 3^{ydd} £5.

Y gwobrau yn rhodd gan Gwilym, Eirianwen, Lois a Non Williams, Ty'n Lon.

15. Unawd Blwyddyn 7 ac o dan 19 oed : Hunan ddewisiad

Gwobrau 1^{af} £16, 2^{il} £13, 3^{ydd} £11.

Y gwobrau yn rhodd gan Hogia'r Ddwylan.

CYSTADLAETHAU NOS SADWRN, MAI 18^{fed} 2013

LLEISIOL :

16. Unawd Bl. 10 ac o dan 19 oed - Unrhyw unawd safonol ac eithrio emyn, unawd allan o Sioe Gerdd neu gân ysgafn : Hunan ddewisiad

Gwobrau 1^{af} £30, 2^{il} £20, 3^{ydd} £10.

Y wobr 1^{af} a'r 2^{il} : Rhodd gan Robin a Gwenda Jones, Rhostrehwfa.

Y 3^{edd} wobr : Rhodd gan 'Lobsgows'

17. Deuawd dan 19 oed : Hunan ddewisiad

Gwobrau 1^{af} £40, 2^{il} £30, 3^{ydd} £15.

Y wobr 1^{af} : Rhodd gan Eirlys Ryder, Llangefni.

Yr 2^{il} wobr : Rhodd gan Carwyn Siddall, Niwbwrch.

18. Côr / Parti Deulais neu fwy dan 19 oed : Hunan ddewisiad

Gwobrau 1^{af} £60, 2^{il} £40, 3^{ydd} £30.

Y wobr 1^{af} : Rhodd gan John L. a Jennifer Jones, Rhostrehwfa.

Yr 2^{il} wobr : Rhodd gan Owen Devenport, Llangefni.

Rhennir y 3^{edd} wobr fel a ganlyn :-

£20 : Rhodd gan Heather Thomas, Llangefni.

£10 : Rhodd gan Owen Devenport, Llangefni.

19. Canu Emyn 50 oed a throsodd : Hunan ddewisiad

Gwobrau 1^{af} £40, 2^{il} £30, 3^{ydd} £20.

Y wobr 1^{af} : Rhodd gan Hefina Williams, Penysarn.

Yr 2^{il} wobr : Rhodd gan Dwynwen Rowlands, Llangefni er cof am Tom a Nan Davies, Rhosmeirch.

Y 3^{edd} wobr : Rhodd gan Sal Roberts, Llanfairtalhaearn.

20. Unawd Gymraeg : unrhyw gân a gyfansoddwyd gan gyfansoddwr Cymreig i'w chanu yn y Gymraeg.

Gwobrau 1^{af} £60, 2^{il} £40, 3^{ydd} £30.

Y wobr 1^{af} a'r 2^{il} : Rhodd gan Ioan Dyfnan ag Alfred Wyn, Llangefni.

Y 3^{edd} wobr : Rhodd gan Iris, Helen Mai a'r teulu er cof am
Mr a Mrs W. T. Owen, Llannerch-y-medd.

21. Y Brif Unawd : Unrhyw ddarn allan o Opera, Lieder neu Oratorio i'w chanu yn y Gymraeg.

Gwobrau 1^{af} £100, 2^{il} £75, 3^{ydd} £50.

Y wobr 1^{af} : Rhodd gan Megan Williams, er cof am ei phriod Huw Williams, Gaerwen.

Yr 2^{il} wobr : Rhodd gan Pat Ann ac Owain Roberts, Amlwch.

Y 3^{edd} wobr : Rhodd gan Gôr Lleisiau Llannerch.

22. Côr Meibion / Merched / Cymysg : Rhaglen 12 munud yn cynnwys darn di-gyfeiliant.

Gwobrau 1^{af} £500, 2^{il} £300, 3^{ydd} £200.

Yr 2^{il} wobr : Rhodd Er Cof am, Eifion Griffiths, Benllech, gan Eryl, Dafydd, Gareth, Manon a'r plant.

Y 3^{edd} wobr : Rhodd gan Gôr Meibion y Foel.

Gofynnir i'r corau archebu eu tocynnau ac anfon tâl priodol o £3 y pen gyda'u ffurflen gofrestru i gystadlu.

Cyflwynir Baton Arian i Arweinydd y Côr gorau

CANU GWERIN :

23. Cân Werin dros 19 oed : Hunan ddewisiad

Gwobrau 1^{af} £40, 2^{il} £25, 3^{ydd} £20.

Y wobr 1^{af} : Rhodd gan Nia Huws, Llangefni.

Yr 2^{il} wobr : Rhodd gan Hogia'r Ddwylan.

Y 3^{edd} wobr : Rhodd gan 'Lobsgows'

24. Côr / Parti Gwerin : Hunan ddewisiad

Gwobrau 1^{af} £100, 2^{il} £75, 3^{ydd} £50.

Y wobr 1^{af} : Rhodd di-enw.

Yr 2^{il} wobr : Rhodd gan Hogia'r Ddwylan.

Y 3^{edd} wobr : Rhodd gan Elen Wyn Keen, Llangristiolus.

CERDD DANT :

25. Deuawd Cerdd Dant dan 19 oed : Hunan ddewisiad

Gwobrau 1^{af} £40, 2^{il} £30, 3^{ydd} £15.

Y gwobrau yn rhodd gan Malcom a Jean Lee er cof am Mrs Edith Lee, Llannerch-y-medd.

